SOL FACH

Cynllun Gweithredu

PLANED's 'Shaping Our Futures' Project is part financed by the
National Assembly for Wales through the Community Facilities & Activities programme

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

PLANED

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CarnegieUK TRUST
CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GWEITHREDU CYMUNEDOL

Ar gyfer Solfach

Paratowyd mewn cydweithrediad â
PLANED

TABL CYNNWYS

CYNNWYS	TUDALEN
Cefndir y Cynllun Gweithredu	**2**
Ardal y Cynllun Gweithredu	**2**
Hanes	**2**
Lle Arbennig	**4**
Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Solfach	**5**
Cychwyn ar y Gweithredu	**5**
Cyfleusterau Cymunedol	**6**
Gweithgareddau Cymunedol a Chyfathrebu	**7**
Amgylchedd ac Ailgylchu	**9**
Treftadaeth	**11**
Busnes a Thwristiaeth	**12**
Tai a Gwasanaethau	**14**
Traffig, Trafnidiaeth a Phriffyrdd	**15**
Gweithredu / Gweithgorau	**16**
Y Darlun Ehangach	**16**

Cytunwyd ar y Cynllun Gweithredu hwn adeg Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 22 Mai 2008 ar ôl dosbarthu'r Cynllun Gweithredu Drafft i'r gymuned gyfan.

Cefndir y Cynllun Gweithredu

Mae i Solfach draddodiad hir o hunangymorth, gydag amrywiaeth eang o fudiadau lleol, a Chyngor Cymunedol gweithgar. Yn 2007, fe wnaeth y gymuned benderfynu creu Cynllun Gweithredu.

Ym mis Chwefror 2008 cynhaliwyd dau weithdy Creu Gweledigaeth ac ymgynghoriad ieuenctid. Dan arweinyddiaeth PLANED, fe wnaethant helpu trigolion o bob oed i edrych ar anghenion a dyheadau'r pentref mewn goleuni newydd. Fe wnaeth y Gweithdai Creu Gweledigaeth Gymunedol gynnwys y gweithgareddau a ganlyn:

- Rhywbeth Arbennig – rhinweddau arbennig cymuned Solfach
- Archwiliad Cymunedol – rhestru'r prif nodweddion a chyfleusterau
- Darlun Ehangach o'r Gymuned – ystyried materion lleol a byd-eang
- Gwendidau, Bygythiadau, Cryfderau a Chyfleoedd
- Y Weledigaeth ar gyfer 2028 – Solfach yn y dyfodol.
- Archwiliad Sgiliau ac Adnoddau – enghreifftio'r amrywiaeth o sgiliau lleol
- Rhoi'r Syniadau ar Waith – defnyddio'r wybodaeth i gynllunio prosiectau

Mi fydd darganfyddiadau'r gweithdy yn ogystal â gwybodaeth arall gan gynnwys Datganiad Ardal Gadwraeth y Parc Cenedlaethol 2002, yn cael eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu Drafft a fydd yn cael ei ddosbarthu i'r gymuned gyfan cyn ei drafod mewn Cyfarfod Cyhoeddus.

Ardal y Cynllun Gweithredu
Mae Solfach yn bentref prysur sy'n gorwedd mewn cilfach, tebyg i ffiord yn ne orllewin Sir Benfro, 12 milltir i ogledd orllewin Hwlffordd a thair milltir i'r de-ddwyrain o Dyddewi.

Cysylltir y gymuned sydd wedi ei rhannu i Solfach Uchaf ac Isaf, gan fryn serth, lle saif cofgolofn rhyfel, a phentrefannau cyfagos Tre-groes a'r Felinganol.

Mae Solfach Isaf gyda'i harbwr, bythynnod lliwgar, anheddau mawrion o gerrig, siopau, orielau a thafarnau, yn brysur iawn yn yr haf, gan ei fod yn gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr. Mae gan Solfach Uchaf dafarn, siop a swyddfa bost, Eglwys Saint Aidan a chapeli Bryn Sïon a Chapel Uchaf, meddygfa, caeau chwarae ac ysgol gynradd. Dyma'r brif ardal breswyl.

Mae gan fannau uchaf ac isaf y pentref amrywiaeth o gyfleusterau gan gynnwys meysydd parcio, toiledau cyhoeddus, safle bws, meinciau, hysbysfyrddau, mannau chwarae a mannau gwyrdd.

Cafodd canolfannau hanesyddol Solfach Uchaf ac Isaf eu henwi'n ardaloedd cadwraeth ym 1997 sy'n golygu eu bod nhw o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig a werth eu diogelu neu'u gwella.

Hanes

Mae Caerau Oes Haearn ar hyd y pentir yn cadarnhau trigfannau cynnar ac roedd yr harbwr unigryw sy'n naturiol a chysgodol, yn bwysig yn y cyfnod canoloesol.

Mae Solfach Isaf wedi ei leoli yn nwfn yn nyffryn Solfach, sy'n cyferbynnu â Solfach Uchaf sydd ar lwyfandir yn edrych dros bae St. Brides. Mae'r mwyafrif o'r strydoedd yn dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd yr ardal yn manteisio ar brisiau uchel y corn adeg rhyfeloedd Napoleon.

Roedd masnach forwrol yn bwysig hefyd, yn enwedig adeiladu llongau ac allforio grawn - yn ei anterth economaidd roedd gan Solfach 12 tafarn a 10 odyn calch. Ymhlith yr adfeilion diwydiannol mae cyn warws a'r odynnau calch sydd ar hyd y Gribin, yn enwedig y rhai bendigedig ger y foryd.

Cafodd y pentrefan Felinganol ei enw o'r felin wlân. I'r gorllewin mae Eglwys Tyddewi sy'n rhoi'r enw Tre-groes i'r pentrefan.
(Datganiad Ardal Gadwraeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol 2002)

Lle Arbennig

Yn ystod y gweithdai Creu Gweledigaeth fe wnaeth trigolion Solfach nodi rhinweddau hanfodol Solfach, a'r thema a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro oedd ansawdd bywyd mewn 'lleoliad hyfryd'. Mae ei leoliad hyfryd o fewn y Parc Cenedlaethol, sy'n cynnig llwybrau cerdded arfordirol, tair fferm a chyfoeth o fywyd gwyllt, oll yn destun balchder.

Nodwyd 'Ynysu daearyddol' fel nodwedd arbennig arall, yn ogystal â'r natur 'cosmopolitaidd' - sy'n adlewyrchu'r 'cyferbyniad haf/gaeaf' a'r cyfuniad o drigolion, ynghyd â'r ymwelwyr sy'n dychwelyd bob blwyddyn i flasu'r rhinweddau unigryw. Mae'r lleoliad arfordirol anghyffredin sy'n debyg i 'ffiord', mewn dyffryn sydd ag ymylon dwfn, felly'n portreadu 'gem gudd', sydd â hanes o hunangynhaliaeth. Crybwyllwyd hefyd yr hinsawdd dymherus, lle 'nad yw rhagolygon y tywydd cenedlaethol yn berthnasol'.

Yn ogystal â'i rhin ffisegol, nodwyd ymdeimlad o ysbryd cymunedol – 'mae'n gymuned sydd yn cyd-dynnu', meddai un o'r unigolion a gymerodd rhan yn y gweithdy. Ymhlith y nodweddion allweddol eraill cafwyd 'ymdeimlad o agosrwydd' ac amgylchedd 'croesawgar' gan adlewyrchu'r cyfuniad o drigolion a fu'n byw yn y pentref ers tro, a phobl sydd wedi dewis symud i fyw yno'n ddiweddar.

Mae yna fywyd cymdeithasol 'actif a bywiog' yno, gyda mannau da i oedolion gymdeithasu, a dau le chwarae i blant Yn ogystal ag amrywiaeth eang o grwpiau a mudiadau lleol, mae'r clwb cychod, tafarnau a'r tai bwyta yn cynnig dewis o opsiynau. Ymhlith y digwyddiadau blynyddol mae ras hwyaid, regata ac arddangosfa tân gwyllt. Cyfeiriwyd hefyd at y Neuadd Goffa, eglwysi, capeli a'r harbwr. Mae yna drawstoriad o oedrannau a doniau yn y gymuned, gyda'r cenedlaethau'n yn cymysgu'n dda.

Mae'r gymuned yn ffodus iawn gan fod yno feddygfa, cludiant cyhoeddus rhesymol, a llwyddwyd i gadw'i swyddfa bost a'r ysgol. Ymhlith y manteision, cyfeiriwyd at amgylchedd sy'n gyfeillgar i blant a lefelau isel o drosedd. Ystyriwyd hanes, treftadaeth naturiol, a gorffennol diwylliannol gyfoethog yn gryfderau pellach, ynghyd â'i agosrwydd at Dyddewi a'i eglwys gadeiriol sydd yn cynnig cerddoriaeth yn ogystal â man addoli.

Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Solfach

Mae gan drigolion lleol weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n cynnwys cyfuniad o gadw 'naws y pentref' yn enwedig yr 'harbwr a'r cei', tra'n diogelu'r dirwedd sydd heb ei difetha, a'r 'awyrgylch' gan hefyd gydnabod bod yn rhaid i'r gymuned esblygu.

- Mi fyddai cyfleusterau newydd yn cynnwys canolfan ieuenctid, siop gymunedol ac amgueddfa. Crybwyllwyd hefyd, rhandiroedd, lle chwarae i blant bach a chanolfan gynghori.
- Mi fyddai amrediad y gweithgareddau'n cael ei ymestyn i gynnwys clwb ieuenctid sy'n ffynnu, dosbarthiadau crefft a choginio, lawnt fowlio a llwybr beicio.
- Roedd yna alw am gyfleoedd chwaraeon a gwell cyfleusterau chwaraeon.
- Roedd cadw'r ysgol a'r swyddfa bost yn flaenoriaeth
- Ystyriwyd pwysigrwydd cefnogi amaethwyr lleol a phrynu cynnyrch lleol, efallai mewn marchnadoedd amaethwyr/pysgotwyr.
- Roedd cymuned busnes 'amrywiol' ymhlith y dyheadau.
- Mae cyflogaeth ac annog pobl i aros yn yr ardal a chyfrannu at y gymuned yn bwysig.
- Roedd tai fforddiadwy neu dai cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc ymhlith y dyheadau, yn ogystal â llety cysgodol ar begwn arall y sbectrwm oedran.
- Crybwyllwyd cydbwysedd rhwng deiliadaeth leol ac ail gartrefi, ynghyd ag 'osgoi datblygu afreolus'.
- Mynediad diogel ar hyd llwybr newydd rhwng Solfach Uchaf ac Isaf.
- Roedd cynnydd mewn traffig trwm a gyrwyr esgeulus yn achosi pryder mawr a dylid sicrhau mesurau i reoli hyn.
- Crybwyllwyd sawl tro y byddai presenoldeb yr heddlu yn ddymunol.
- Mi fyddai modd gwella cludiant cyhoeddus i geisio gostwng y defnydd o gar
- Ystyriwyd pwysigrwydd diogelu hanes, diwylliant ac iaith Solfach.

Cychwyn y Gweithredu

Mae gan Solfach galendr o ddigwyddiadau wythnosol a blynyddol, a grŵp craidd o bobl sy'n eu trefnu. Yn yr un modd a nifer o gymunedau, weithiau mae yna ymdeimlad o ddiffyg gwirfoddoli, ac mae croeso mawr i fwy o wirfoddolwyr, yn enwedig rhai ieuengach.

Mae yna syniadau newydd ar gyfer gweithgareddau wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu ac mi fydd hyn yn amodol ar ymgynghoriad cynhwysfawr ymhlith y gymuned. Mae modd cytuno ar newidiadau terfynol adeg y cyfarfod cyhoeddus ac mi fydd y broses yn darparu cyfle newydd i bobl leol gymryd rhan. Mae ffurfio Fforwm Cymunedol i ddatblygu cynigion y cynllun gweithredu yn ffordd ragorol o gynnwys pobl o bob oedran. Un awgrym a ddaeth i law adeg y gweithdai cymunedol oedd sefydlu 'grŵp gweithredu' a allai fod yn sylfaen Fforwm Cymunedol. Mae asiantaethau cyllido angen tystiolaeth o gyfranogiad cymunedol ac mae Cynllun gweithredu a hyrwyddir gan Fforwm Cymunedol gweithgar yn fan cychwyn defnyddiol iawn.

Mi fydd PLANED a phartneriaid yn cynorthwyo gweithrediad y Cynllun Gweithredu. Gyda'i gilydd maen nhw'n medru cynnig help arbenigol a chyllid ar gyfer prosiectau, gan gynnwys gwelliannau, gwarchod yr amgylchedd a dehongli hanes lleol.

Mae materion a godwyd adeg y gweithdai wedi cael eu grwpio i themâu eang yn y Cynllun Gweithredu Drafft hwn. Lle'n briodol, maen nhw'n ymwneud â safleoedd penodol, sydd â chynigion penodol.

Cyfleusterau Cymunedol

Sylwadau:

Mae yna amrywiaeth dda o gyfleusterau yn Solfach gan gynnwys mannau cyfarfod, lleoedd chwarae i blant, caeau chwarae, mannau gwyrdd a safleoedd picnic.

Ymhlith y mannau cyfarfod mae'r Neuadd Goffa, Eglwys, Sant Aidan, capeli, yr ysgol, y Clwb Pêl-droed, tafarnau a'r Clwb Cychod.

Cydnabyddir y Neuadd Goffa (darlun) fel y prif leoliad ar gyfer cyfarfodydd cyngor y gymuned a chyfarfodydd grŵp, clybiau a dosbarthiadau. Dengys ei hysbysfyrddau ystod eang o weithgareddau.

Mae sesiwn Llyfrgell reolaidd yn boblogaidd ac yn darparu cyfle i gymdeithasu. Mae mewn cyflwr da yn dilyn ymgyrch frwd i godi arian i'w diweddaru nifer o flynyddoedd yn ôl, ond mae yna botensial i gynnwys mwy o weithgareddau a'u hysbysebu'n fwy effeithiol.

Mae Cyngor y Gymuned yn cyflogi 'gofalwr cymunedol' i gynnal a chadw nifer o gyfleusterau gan gynnwys safle bws, meinciau a thoiledau yn ogystal â thorri porfa.

Mae cyfleusterau chwarae da i blant gydag adnoddau da yn Solfach uchaf ac Isaf sy'n cynnwys mannau i rieni eistedd er mwyn mwynhau eu hamser hamdden. Mae'r lle chwarae yn Solfach Uchaf erbyn hyn wedi ei addurno â sawl murlun lliwgar a baentiwyd gan blant a phobl ifanc, dan oruchwyliaeth Ymddiriedolaeth y Tywysog, fel rhan o'r ymgynghoriad cymunedol.

Er bod yna gaeau chwarae gymharol fawr (sy'n eiddo i'r Cyngor Sir) ger adeilad y Clwb Pêl-droed yn Solfach uchaf, mae llawer o bobl am weld mwy o gyfleusterau aml-ddefnydd. Mi fyddai hyn yn galluogi cynnal chwaraeon fel pêl fasged a thenis, a fyddai o fudd i ymwelwyr yn ogystal â phobl leol. Mae'n bosib bod yna botensial i ddatblygu'r safleoedd presennol.

Amlygwyd diffyg cyfleusterau a gweithgareddau a drefnir ar gyfer pobl ifanc dro ar ôl tro yn ystod y gweithdai cymunedol. Roedd pobl hŷn hefyd am fwy o gyfleusterau hamdden - awgrymwyd lle chwarae i'r henoed. Mae yna esiamplau o offer arbennig ar gael sy'n helpu pobl hŷn i wneud ymarfer corff mewn amgylchedd diogel.

Mae Clwb Cychod Solfach (darlun), sy'n cynnwys caffi ar Gei'r Drindod, a chaiff yr ardal hon ei defnyddio adeg y regata a digwyddiadau cyhoeddus eraill. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn mwynhau'r môr, i nofio, bysgota, rhwyfo a chystadlaethau hwylio yn ogystal â regatas. Y mae'r môr hefyd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer chwaraeon dŵr a drefnir ar gyfer plant ac oedolion.

Mae rhai pobl yn teimlo bod modd 'gwneud mwy o'r harbwr a'r cei'. Ymhlith yr awgrymiadau cafwyd sefydlu Amgueddfa Forwrol (gweler adran Busnes*).*
Mae'r pwll nofio yn Ysgol Dewi Sant yn gyfleuster gwerthfawr iawn ond mae yna bryderon ynglŷn â'i ddyfodol; mae pobl leol yn awyddus i'w gadw a'i ddatblygu.

Cynigion:

- Archwilio cyfleoedd i ehangu cyfleusterau chwaraeon i greu ardal amlbwrpas hyblyg ar gyfer pob oedran gyda dewis ehangach o opsiynau.
- Datblygu syniadau ar gyfer Canolfan Ieuenctid - ardal bwrpasol ar gyfer pobl ifanc, gyda chysylltiad â'r rhyngrwyd a chyfleusterau eraill. Archwilio'r potensial o ddefnyddio'r Clwb Pêl-droed i wneud hyn.
- Archwilio cyfleoedd i wneud defnydd gwell o ardal yr Harbwr gan gynnwys datblygu amgueddfa (gweler adran Treftadaeth).
- Ymchwilio i gyfleoedd ariannol i ddatblygu cyfleusterau pellach.
- Cefnogi'r ymdrech i achub y pwll nofio yn Ysgol Dewi Sant.
- Ymchwilio i berchnogaeth tir o ran cyn-gyfleusterau chwaraeon a rhai presennol.
- Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu mwy o gyfleusterau ar gyfer yr henoed lleol.

Gweithgareddau Cymunedol a Chyfathrebu

Sylwadau

Mae gan Solfach nifer o grwpiau, clybiau a mudiadau sy'n cynnwys Sefydliad y Merched, Clwb Cinio, Cylch Ti a Fi, Clwb Colli Pwysau, 'Brownies', a Chlwb Dydd Llun sy'n cyfarfod yn y Neuadd Goffa. Mae Cyngor y Gymuned a Phwyllgor y Neuadd yn cyfarfod yma hefyd.

Cynhelir dosbarthiadau ymarfer corff, gan gynnwys cadw'n ffit, ystwythder, yoga a pilates hefyd yn y Neuadd Goffa. Mae dosbarthiadau dawns a grwpiau celf a cherflunwaith yn cyfarfod yno hefyd. Mae yna gynghrair cwis tafarn sy'n ffynnu. Ceir hefyd gerddoriaeth gwerin yn y tafarnau.

Mae Cymdeithas Perchnogion Cychod Solfach a Chymdeithas y Bad Achub, Pwyllgor y Regata a'r Clwb Pêl-droed yn trefnu gweithgareddau. Mae'r eglwysi a'r capeli yn cynnal digwyddiadau cerddorol, grŵp ffydd a chyfle i astudio'r Beibl.
Mae'r digwyddiadau blynyddol yn cynnwys y Regata, digwyddiadau cerddorol a nosweithiau yn y neuadd, y llwybr Bwgan Brain, Ras Hwyaid, helfeydd trysor, ffeiriau a thân gwyllt. Mae Gerddi Agored a gweithgareddau eraill a gynhelir gan Sefydliad y Merched, yr eglwys ac ati yn boblogaidd.
Mae yna atgofion 'gwych' o'r Eisteddfod yn 2004, ac mae'n ymddangos fod yna ddiddordeb i ddatblygu mwy o gyfleoedd yn ymwneud â cherddoriaeth, diwylliant a drama.

Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd am weithgareddau ychwanegol mae cerddoriaeth, dawnsiau neuadd, digwyddiadau dawns a grŵp drama. Crybwyllwyd hefyd, ddosbarthiadau coginio a chrefft. Roedd bowlio yn awgrym poblogaidd, ynghyd â mwy o gyfleoedd ar gyfer pêl-droed, rygbi, rhwyfo a hwylio, yn ogystal â thenis, campfa a badminton. Ymhlith y syniadau eraill cafwyd digwyddiadau cyffredinol yn y gymuned a thwmpath dawns. Cafwyd ceisiadau am fwy o gefnogaeth ar gyfer gweithgareddau crefyddol.

Fe wnaeth dros 30 o blant a phobl ifanc gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth y Tywysog a gwasanaeth ieuenctid Cyngor Sir Penfro. Ar hyn o bryd maent yn treulio'r mwyafrif o'u hamser hamdden yn cymdeithasu gyda ffrindiau neu deulu

(43.8%). Mae dros 28% yn mwynhau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored fel rhwyfo. Mwynhau gemau cyfrifiaduron oedd nesaf, sef 18.8%. Fe ddewisodd ychydig dan 10% weithgareddau'n seiliedig ar y celfyddydau, fel cerddoriaeth, drama a dawns. Cynhelir y mwyafrif o'r rhain yn Solfach ond hefyd defnyddir lleoliadau yn Hwlffordd, Abergwaun, Tyddewi, Mathri a Thre-fin.

Er i dros 50% o'r rheini a holwyd, ddweud bod byw yn Solfach yn 'grêt' neu'n 'wych, fe wnaeth 22% ddatgan ei fod yn 'ofnadwy.' Fe wnaeth dros 19% ddatgan 'y gallai fod yn well' ac roeddent o'r farn bod yna ddiffyg gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc. Fe ddywedodd dros 38% bod yna 'rhai cyfleoedd' ond y byddai'n well ganddynt 'mwy o ddewis.' Mae ychydig dan 10% yn aelodau o grwpiau gan gynnwys Sgowtiaid, Geidiau, Brownis a Chybiaid ond mae angen mwy o weithgareddau ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc.

Awgrymwyd Canolfan Ieuenctid bywiog ar ffurf 'galw i mewn' a fyddai'n cynnwys Clwb Ieuenctid a gweithgareddau eraill fel canolfan seiber a wal graffiti. Byddai angen safle addas yn ogystal â gwirfoddolwyr sy'n fodlon derbyn hyfforddiant mewn gwaith ieuenctid. Mae pobl ifanc yn frwdfrydig iawn dros brosiect o'r fath, ond mi fyddai angen cefnogaeth oedolion sy'n sylweddoli bod angen lle eu hunain, ar wahân ar bobl ifanc, ac y gallent gyfranogi mwy.

Fe ddywedodd bron i 75% o'r bobl ifanc y byddent am helpu i wella'r gymuned. Awgrymodd aelodau'r gymuned y dylai fod ganddynt gynrychiolaeth ar Gyngor y Gymuned, ac yn gyffredinol dylent gael cyfleoedd i chwarae mwy o ran gan mai nhw yw'r dyfodol.

Mae'r amgylchedd ehangach yn boblogaidd yn nhermau gweithgareddau hamdden fel cerdded, beicio, gwylio adar ac astudio hanes naturiol. Mae yna ddiddordeb mewn byw yn iach ac ymhlith yr awgrymiadau cafwyd grwpiau cerdded a drefnir i annog ymarfer corff a chymdeithasu.
Mae yna hefyd ddiddordeb mewn nofio a defnyddio campfa.

Er bod yna ysbryd cymunedol cadarn ymhlith y 'genhedlaeth hŷn', ac ymdeimlad bod y gymuned yn cyd-dynnu, mae angen mwy o wirfoddolwyr i drefnu digwyddiadau ac annog cyfranogiad yn y gymuned. Ymhlith y sylwadau a gafwyd adeg y sesiynau creu gweledigaeth, oedd ;gormod o bwyllgorau' ac nid digon o wirfoddolwyr, yn enwedig rhai ifanc'. Fe ddywedodd person arall bod ' gwir angen gwirfoddolwyr yn y grŵp oedran 30-50'.

Nodwyd hefyd, ddiffyg cyfleoedd i rannu sgiliau. Fe wnaeth archwiliad sgiliau a gynhaliwyd adeg y gweithdai cymunedol gynnwys sgiliau gweinyddiaeth, addysgu, artistig a gwaith ieuenctid. Mae yna 'amrywiaeth o bobl ddawnus' yn byw yn Solfach. Cynigiwyd adnoddau hefyd.

Mae cyfathrebu'n dda, gydag amrywiaeth o hysbysfyrddau ar hyd a lled y pentref sy'n cynnwys posteri lliwgar a hysbysiadau. Mae'r 'gair llafar' yn bwysig, ac mae'r siop a'r feddygfa yn boblogaidd iawn os oes angen newyddion lleol. Mae yna wefan da, sef www.Solfachlife.net sy'n cynnwys '10 Peth y dylech wybod am Solfach. Mae taflenni newyddion lleol a'r Western Telegraph yn ogystal â radio lleol yn ffynonellau da o wybodaeth.

Cynigion:

- Trefnu Arolwg o Weithgareddau Cymunedol i bennu'r diddordeb o gynnal gweithgareddau newydd.
- Ymchwilio i'r potensial o gynnig addysg ychwanegol, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden yn y neuadd a'r ysgol.
- Gwneud mwy o'r cylchlythyr cymunedol
- Trefnu cyfarfod gyda'r cydlynydd 50+.
- Annog gwirfoddolwyr newydd i gynnal gweithgareddau hen a newydd.
- Archwilio cyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig darparu Canolfan Ieuenctid a thrafod opsiynau ar gyfer gweithgareddau ieuenctid. Ceisio help Ymddiriedolaeth y Tywysog.

- Edrych ar ffyrdd o gynnwys pobl ifanc ym mywyd y gymuned e.e. trwy gynrychiolaeth ar Gyngor y Gymuned neu'r Fforwm arfaethedig.
- Edrych ar ffyrdd o ddatblygu mwy o weithgareddau ar gyfer pobl hŷn – eu cynnwys yn yr arolwg.
- Edrych ar y potensial o drefnu mwy o weithgareddau awyr agored fel Grŵp Cerdded, a allai gysylltu â diddordebau treftadaeth a chyfleoedd i gymdeithasu.
- Edrych ar ffyrdd o wneud y gorau o sgiliau ac adnoddau lleol - gwaith ieuenctid, artistig, codi arian a gyrru bws mini. Mae hefyd angen amser a brwdfrydedd.
- Sefydlu Ffair Solfach mewn lleoliad lleol (maes parcio) er mwyn gwerthu nwyddau, cynnyrch, dillad a chrefftau lleol.

Amgylchedd, Ynni ac Ailgylchu

Sylwadau:

Mae'r lleoliad naturiol ysblennydd, yr harbwr a mannau gwyrdd y pentref oll yn cyfrannu at fywyd sydd o ansawdd da. Mae'n well gan y bobl yr amgylchedd godidog a'r cyfleusterau naturiol hyfryd sydd gan yr arfordir a'r llwybrau i'w gynnig. Crybwyllwyd hefyd y tir fferm cyfoethog sydd o amgylch. Mae yna falchder bod Solfach o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Penfro a bod y pentref yn ardal gadwraeth.

Mae Gardd Goffa'r Capel sydd yng nghanol Solfach Uchaf yn darparu man gwyrdd er mwyn mwynhau tawelwch. Mae yna gryn lawer o ddiddordeb i ddatblygu rhandiroedd ac awgrymwyd y dylid ffurfio Cymdeithas Rhandiroedd.

Mae gan Solfach rhwydwaith dda o lwybrau cyhoeddus gyda llwybr beicio wedi ei farcio ar hyd lonydd cyfagos. Yr hoff lwybrau cerdded yw'r rheini sy'n croesi maes glanio cyfagos Tyddewi, sy'n ardal bwysig ar gyfer bywyd gwyllt. Mae Llwybr y Clychau Gleision yn Solfach Isaf hefyd yn boblogaidd.

Mae'r llwybrau yn cynnwys arwyddion clir yn ogystal â rhai byrddau dehongli. Mae yna gryn ddiddordeb i ddatblygu mwy o lwybrau beicio, yn rhannol oherwydd pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd.

Mae nifer o lwybrau o bwysigrwydd hanesyddol gan eu bod nhw'n arwain at bympiau dŵr, y felin, a safleoedd diwydiannol fel yr odynnau. Mae rhai o'r camfeydd yn eitemau hanesyddol yn eu hawl eu hun. Maent wedi eu creu o garreg a llechi ac mae'n bosib eu cynnwys yn y Llwybr Treftadaeth lleol.

Mae'r Safle Picnic yn Felinganol (darlun) yn fan gwyrdd deniadol i orffwyso ar ôl cerdded o Solfach, ac mae pobl leol ac ymwelwyr yn ei werthfawrogi.

Mae cynnal ansawdd yr amgylchedd naturiol a chymeriad y pentref yn nodwedd sylweddol o'r weledigaeth ar gyfer dyfodol Solfach.

Ymhlith yr awgrymiadau syml cafwyd plannu mwy o goed, rheoli baw cŵn a darparu mwy o finiau sbwriel. Yr awdurdod lleol a pherchnogion tir sy'n gofalu am y llwybrau. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn monitro a gwarchod nodweddion amgylcheddol. Mae help a chefnogaeth ar gyfer yr amgylchedd morwrol ar gael gan Fforwm Arfordir Sir Benfro a phartneriaid.

Yn ystod y gweithdai, fe wnaeth trigolion ystyried materion byd-eang fel newid yn yr hinsawdd a sut yr oedden nhw hefyd yn medru effeithio ar fywyd lleol. Roedd sicrhau bod bwyd o ansawdd ar gael ar lefel leol, ac am bris rhesymol hefyd yn bwysig, yn ogystal â chost gwastraff a ffyrdd o ddefnyddio ynni 'gwyrdd' heb ddifetha'r amgylchedd naturiol.

Trafodwyd y mesurau y byddai modd eu gweithredu ar lefel lleol, fel ailgylchu ac ynni yn y cartref. Roedd colli gwasanaethau lleol a siopau yn achosi pryder. Cafwyd sylw nad oes modd 'bwyta arian' a chytunwyd y dylai pobl fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd. Ystyriwyd pwysigrwydd datblygu prosiectau yn y ffordd fwyaf cynaliadwy posibl e.e. defnyddio contractwyr lleol a defnyddiau adnewyddadwy ac ati.

Mae cyfleusterau ailgylchu yn rhan allweddol o warchod yr amgylchedd ac mae trigolion Solfach yn frwd dros ailgylchu. Mae cynllun 'bag oren' y Cyngor Sir ar fin dechrau, ond mae angen cyfleusterau ar gyfer cynwysyddion plastig ac ati.

Mynegwyd diddordeb i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer harneisio ynni naturiol, gan gynnwys gwynt a cheryntau llanw. Awgrymwyd hefyd, llosgwr sydd ddim yn llygru. Mae'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cartrefi â phaneli solar a thyrbinau gwynt.

Mae Swyddog Amgylchedd PLANED yn gweithio gyda grwpiau amgylcheddol lleol i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer nifer o weithgareddau gan gynnwys archwiliadau cynefinoedd a rhywogaethau. Mi fydd partneriaid yn darparu cyngor e.e. Mae'r Cyngor Sir yn darparu cymorth ar gyfer materion sy'n ymwneud â hawliau tramwy. Mae nawdd amrywiol ar gael ar gyfer prosiectau amgylchedd yn y gymuned.

Cynigion:

- Ffurfio Grŵp Amgylcheddol i ddarparu gweithgareddau'n ymwneud ag amrywiaeth o bynciau gan gynnwys bioamrywiaeth leol, hawliau tramwy cyhoeddus, ynni ac ailgylchu.

- Annog ymdeimlad o rannu cyfranogiad yn nhermau gofalu am, a gwarchod yr amgylchedd lleol, naturiol ac adeiledig.
- Ystyried plannu coed a safleoedd pellach ar gyfer bywyd gwyllt e.e. cuddfannau adar ar y maes glanio.
- Ymgymryd ag archwiliadau llwybrau mewn cysylltiad â'r Parc Cenedlaethol a pherchnogion tir ac edrych ar y potensial i greu mwy o lwybrau beicio.
- Cynllunio llwybrau cylch i annog pobl leol ac ymwelwyr i archwilio'r ardal a mwynhau ei hanes fel rhan o'r Llwybr Treftadaeth, cadw llwybrau'n glir a darparu manteision i'r iechyd hefyd.
- Adolygu arferion ailgylchu er mwyn cynnwys cymaint o ddefnyddiau â phosib.
- Adolygu effeithlonrwydd ynni ar lefel personol a chymunedol a chymryd camau i godi ymwybyddiaeth ac arbed ynni ymhob ffordd posibl.
- Archwilio cynhyrchu ynni gan ddefnyddio ffynonellau cynaliadwy - gwynt, tonnau ac ati.
- Annog y cyngor sir i orfodi is-ddeddfau sbwriel a baw cŵn - mae modd gosod baw cŵn mewn biniau cyffredin -dylid gosod arwyddion yn datgan hyn ar finiau. Hefyd, dangos yn glir lle y caniateir cerdded cŵn.
- Cael amcan o'r diddordeb i sefydlu Cymdeithas Rhandiroedd i feithrin ysbryd cymunedol a thyfu llysiau i werthu mewn marchnad leol arfaethedig.
- Edrych am safleoedd addas - ceisio help gan yr awdurdod lleol.
  Mae'r safleoedd a grybwyllwyd yn cynnwys Yr Ardd Furiog, y cae y tu ôl i 'Windy ridge' oddi ar Lôn Panteg, Cae'r Chwarel, Ynys Dowel (ar y diwedd) cae Sant Teilo uwchlaw'r harbwr a'r cae ar ddiwedd Prendergast ger yr afon a grybwyllwyd fel yr opsiwn gorau.
- Ymchwilio i randiroedd llwyddiannus a rhannu syniadau ac arfer da.
- Annog bwyta'n iach e.e. gyda phlant ysgol a'r Clwb Cinio.
- Codi proffil cynnyrch lleol a'r potensial i greu menter (*gweler Busnes).*
- Annog busnesau a deiliaid tai i gymryd rhan yng nghynllun grant Ardal Gadwraeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Treftadaeth a Hanes

Sylwadau:

Mae treftadaeth a hanes yn rhan bwysig o hunaniaeth Solfach ac mae'r amrywiaeth yn anferth - o gaerau oes haearn i oleudai, odynnau, y felin wlân a phympiau'r pentref.

Mae'r trigolion yn ymfalchïo yn llyfr hanes y pentref, ac fe wnaethant fwynhau arddangosfa o hen luniau, llynedd, adeg yr ŵyl. Mae hanes Cei'r Drindod a'r goleudai yn ddiddorol, ac mae yna ddiddordeb i sefydlu Amgueddfa Forwrol yn yr harbwr/cei a fyddai'n gweddu â'r dymuniad i wneud mwy o'r atyniad naturiol hwn. Mae gan y maes glanio cyfagos a'r Neuadd Goffa eu hanes unigryw eu hunain.

Mae'r cerrig beddau lleol wedi cael eu catalogio ac mae byrddau dehongli wedi eu lleoli ger y siop yn Solfach Uchaf, maes parcio'r harbwr a'r maes glanio.

Mae angen byrddau dehongli dwyieithog ar gyfer y caerau oes haearn ar y pentir cyfagos sy'n denu ymwelwyr sy'n mwynhau'r llwybrau cerdded lleol. Dylid darparu paneli hefyd ar gyfer yr odynnau calch a nodweddion eraill fel pympiau'r pentref.

Roedd yna ddiddordeb cyffredinol yn nhermau pennu gwerth arwahanrwydd lleol, sy'n cynnwys pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a gwarchod sgiliau traddodiadol drwy grefftwyr lleol.

Mae yna ddiddordeb i ffurfio cymdeithas hanesyddol ar gyfer y pentref a Chrynhoi eitemau pellach ynghylch hanes lleol, efallai mewn ffurf taflen bentref. Mi fyddai hyn yn cyfrannu at ansawdd bywyd yn gyffredinol gan wneud y mwyaf o gyfleoedd lleol ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr.

Mae gwneud y mwyaf o dreftadaeth leol yn helpu i gynnwys mwy o bobl mewn digwyddiadau lleol fel y ffair flynyddol a gall hyn gysylltu â'r syniadau eraill fel y grŵp cerdded arfaethedig ar gyfer y pentref a fyddai'n mwynhau Llwybr Treftadaeth lleol.

Cynigion:

- Cael amcan o'r diddordeb mewn ffurfio Grŵp Hanes Lleol i:
  * Ymgymryd ag ymchwil pellach a llunio taflen bentref.
  *Trefnu arddangosfa hanes lleol, gan adeiladu ar lwyddiant arddangosfa o luniau lleol a gwahodd cyfraniadau pellach.
  * Dyfeisio llwybr treftadaeth a gweithio gyda'r grŵp cerdded i'w arolygu ac ati.
- Archwilio'r cynnig i ymestyn y casgliad treftadaeth presennol i ffurfio Amgueddfa Forwrol a datrys materion sy'n ymwneud ag yswiriant.
- Archwilio cyfleoedd i ddehongli'r caerau oes haearn a safleoedd eraill a'u cynnwys ar Lwybr Treftadaeth, ceisio help Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Cael hyd i restr o nodweddion hanesyddol lleol gan Archaeoleg Cambria sy'n cadw cofnod o Safleoedd a Chofadeiladau hynafol.
- Ceisio cyngor, hyfforddiant a chymorth gan amrywiol asiantaethau gan gynnwys Adran Gwasanaethau Amgueddfeydd a Diwylliant y Cyngor Sir, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a rhaglen Ymdeimlad o Le, PLANED.

Busnes a Thwristiaeth

Sylwadau:

Mae'r bobl leol o'r farn, yn ôl y dywediad, bod 'bach yn brydferth' ac mae harbwr naturiol sydd yn borth i'r môr yn nhermau creu bywoliaeth a hamdden, ymhlith llu o gryfderau Solfach.

Mae'r bobl yn wresog a chyfeillgar ac yn croesawu newydd-ddyfodiaid er bod yna bryder ynghylch nifer cynyddol yr ail gartrefi. Mae ganddynt ddawn entrepreneuraidd yn nhermau gwneud y mwyaf o amgylchedd gwych, drwy ystod o fusnesau sy'n cynnwys siopau, tafarnau, bwytai, orielau, crochendy, busnes hwylio a'r felin wlân, yn ogystal ag unigolion hunangyflogedig.

Mae darparwyr llety yn cynnwys hunanarlwyo, gwely a brecwast, carafannau a gwersylla. Maent yn aelodau o Grŵp Busnes Solfach ac yn ymddangos yn ei daflen.

Fodd bynnag, mae nifer o'r farn bod modd gwneud mwy i greu mentrau pellach yn y gymuned er mwyn sicrhau cyflogaeth drwy'r flwyddyn gyfan ac annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

Cydnabyddir pwysigrwydd yr angen am gydbwysedd rhwng menter a gwarchod yr amgylchedd. Rhaid i fusnes a thwristiaeth fod yn gynaliadwy i greu cymuned gadarn sy'n ffynnu ar gyfer y dyfodol.

Mae cymeriad y pentref, yr arfordir a'r atyniadau yn cyfuno gyda mynediad i gefn gwlad deniadol i greu rhinwedd sy'n arbennig i Solfach. Mae pobl busnes am weld masnach yn ystod 52 wythnos y flwyddyn gyda gwell dulliau hyrwyddo a gwell cysylltiadau yn nhermau cludiant. Mi fyddai rheoli traffig yn bwysig iawn ac awgrymwyd cyfleusterau parcio a theithio a bysiau gwennol (*gweler adran Traffig a Thrafnidiaeth).*

Cydnabyddir gwerth y siop a'r swyddfa bost yn Solfach Uchaf ac ansawdd y siopau yn Solfach Isaf, ond mae yna'r awydd i weld mwy o gyfleoedd i brynu bwydydd a chynnyrch yn lleol. Crybwyllwyd marchnad reolaidd.

Crybwyllwyd Gŵyl Solfach, a allai gael ei datblygu drwy gysylltu digwyddiadau blynyddol sydd eisoes yn bodoli, fel y ras hwyaid, helfâu trysor a ffair flynyddol. Byddai hefyd modd cynnal teithiau cerdded a drefnir (mewn cydweithrediad ag awdurdod Parc Cenedlaethol) yn ogystal â hyrwyddo bwyd a chynnyrch lleol (o'r rhandiroedd). Bu hyn yn llwyddiant yn Llandudoch sydd erbyn hyn yn cynnal gŵyl dros gyfnod o wythnos ym mis Mai, sy'n helpu i hybu'r economi lleol cyn i dymor y gwyliau gychwyn. Mi fyddai modd i'r Grŵp Busnes hyrwyddo cynnydd yn y cydweithio rhwng busnesau.

Teimlwyd bod yr harbwr a'r cei yn asedau unigryw a byddai modd gwneud mwy o lawer o'r ardal gyfan i helpu'r economi lleol. Mae'r gymuned am iddo barhau fel harbwr ar gyfer gwaith a hamdden, ond mae ganddynt ddiddordeb i greu Amgueddfa Forwrol a fyddai'n canolbwyntio ar dreftadaeth a hanes, ac a fyddai o ddiddordeb i bobl sydd eisoes yn mwynhau'r daith o'r pentref. Ar ôl mwynhau'r amgueddfa byddent yn cael eu hannog i ymweld â'r caffi am luniaeth. Adeg y rasys rhwyfo a'r regata, mae'r ardal yn ffynnu, felly mae yna reswm i gredu y byddai'r prosiect yn llwyddiannus.

Mae strategaethau cenedlaethol fel Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod pwysigrwydd amgylchedd o ansawdd fel atyniad sylweddol i ymwelwyr tra'n sicrhau bod datblygu twristiaeth yn gynaliadwy a'r cymunedau'n parhau'n gadarn.

Cynigion:

- Cefnogi Grŵp Busnes Solfach i ddatblygu cyfleoedd drwy'r flwyddyn gron.
- Archwilio cyfleoedd i wneud mwy o'r amgylchedd lleol e.e. cyfleoedd i gerdded - potensial i gysylltu â'r Grŵp Cerdded.
- Cysylltiad hefyd â threftadaeth – datblygu'r syniad o Amgueddfa Forwrol.
- Edrych ar y potensial am fwy o allfeydd bwyd a chynnyrch lleol, gan gynnwys marchnad/ffair.
- Trefnu ymweliadau i gymunedau eraill sy'n cynnal gwyliau blynyddol llwyddiannus o wahanol feintiau, gan gynnwys Llandudoch, Saundersfoot a Chrymych.
- Archwilio'r posibiliadau o ddatblygu Gŵyl Solfach.
- Ffurfio grŵp gŵyl.

Tai a Gwasanaethau

Sylwadau:

Mae pobl leol yn teimlo y dylai datblygiadau tai yn Solfach yn y dyfodol anelu at annog pobl ifanc i aros yn yr ardal fel bod modd iddynt ddefnyddio'u sgiliau a'u haddysg i hybu'r economi lleol. Mae yna ddiddordeb mewn technegau adeiladu cynaliadwy, ac effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi newydd. Maent am weld llai o dai haf sydd yn wag am ran o'r flwyddyn, ac awgrymwyd codi treth arnynt, gan ail-fuddsoddi'r arian yn y gymuned.

Anogir y gymuned i gymryd rhan yn ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol – mi fydd yn darparu cyfleoedd i ganfod safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r broses yn cael ei hysbysebu drwy lyfryn sy'n dwyn yr enw 'CDLl Cymru –
Cynllunio'ch Cymuned: Llyfryn Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y cyhoedd.

Yn gyffredinol, mae pobl leol yn fodlon â'r gwasanaethau yn Solfach. Mae yna siopau symudol sy'n cynnwys gwerthu pysgod a gwerthu llysiau. Mae'r llyfrgell deithiol hefyd yn galw ac mae yna hefyd 'bostmyn rhagorol'. Gwerthfawrogir gwasanaethau meddygol ac mae pobl yn ymwybodol o wasanaethau cymdeithasol; mae yna hefyd fydwraig leol. Maent yn falch iawn o'r feddygfa, ond yn teimlo y dylai fod yna fwy o ofal yn cael ei ddarparu i bobl hŷn a'r rheini sydd yn ei chael yn anodd cerdded.

Awgrymwyd 'Pryd ar glud' a mwy o weithgareddau ar gyfer pobl hŷn. Mae yna awydd i integreiddio grwpiau oedran a'u cynnwys mewn gweithgareddau cymunedol ar y cyd. Cafwyd awgrymiadau y dylid gwella adeiladau'r ysgol, yn rhannol oherwydd na fyddai pobl am golli'r cyfleuster.

Mae yna wir bryder ynghylch isadeiledd yn enwedig y system garthffosiaeth a'i allu i ymdopi â'r nifer gynyddol o bobl. Mae llifogydd yn fygythiad a chafwyd un awgrym y dylid edrych ar ryw fath o reolaeth ger mynediad gorllewinol yr harbwr.
Hoffai bobl leol hefyd weld prif gyflenwad nwy.

Adeg y sesiwn creu gweledigaeth, mynegwyd ar sawl achlysur, yr awydd i weld presenoldeb yr heddlu.

Cynigion:

- Annog Cyngor y Gymuned i:
  *Hysbysebu ymgynghoriad y Cynllun Datblygu Lleol
  *Annog y Galluogydd Tai Gwledig i ymgymryd ag Arolwg
  Anghenion Tai lleol i asesu'r galw am gartrefi i'r rheini sydd yn prynu
  am y tro cyntaf
  * Canfod safleoedd ar gyfer tai i bobl leol.
  * Archwilio opsiynau i wella safle'r ysgol.
  * Ceisio cyngor a gwybodaeth ynghylch pryderon isadeiledd.
  * Archwilio'r potensial ar gyfer prif gyflenwad nwy.
  * Lobio ar gyfer gwell carthffosiaeth
  * Ymchwilio'r potensial ar gyfer datblygu mwy o gyfleusterau ar gyfer
  yr henoed lleol.
  * Trafod pryderon sy'n ymwneud â diogelwch gyda'r heddlu.

Traffig, Trafnidiaeth a Phriffyrdd
Sylwadau:

Mae gan drigolion Solfach nifer o bryderon ynghylch traffig a mesurau diogelwch ar y ffordd oherwydd mae yna oedi ar y ffyrdd a thagfeydd adeg yr haf, sydd yn arwain at dymer ddrwg a ffraeo.

Awgrymwyd nifer o bosibiliadau i ddatrys y problemau – o ffordd osgoi a bysiau gwennol i gamerâu cyflymder a mesurau rheoli cyflymder.

Nid oes yna ddigon o leoedd i barcio yn ystod yr haf a chafwyd un awgrym i ailgynllunio maes parcio'r harbwr (darlun*)*. Awgrymwyd hefyd codi tâl am barcio.

Ystyrir mesurau gostegu traffig i ostwng cyflymder a thagfeydd, yn flaenoriaethau.

Mae diffyg llwybr rhwng Solfach Uchaf ac Isaf yn destun pryder oherwydd pryder am ddiogelwch cerddwyr. Awgrymwyd goleuo llwybr yr harbwr.

Mae gan Solfach wasanaeth bws da yn ystod y dydd, ond mae angen gwell amserlen ar gyfer y nos.

Mae'r Pâl Gwibio yn addas i gerddwyr ac mae gwasanaeth bws cymunedol newydd dan arweiniad 'PACTO' yn ddefnyddiol ar gyfer teithiau lleol gan helpu'r amgylchedd drwy gwtogi ar siwrneiau mewn ceir.

D.S. Ymgymerwyd ag arolwg traffig

Cynigion:
Gweithio gyda Chyngor y Gymuned a Chyngor Sir Penfro i:

- Ddefnyddio data'r arolwg traffig i gomisiynu Astudiaeth Rheoli Traffig mewn ymgynghoriad â'r gymuned i asesu'r angen i ostegu traffig a chael gwell arwyddion
- Adolygu trefniadau parcio – ystyried gwell ffyrdd o ail farcio maes parcio'r harbwr.
- Gorfodi cyfyngiadau parcio lleol.
- Archwilio'r potensial i ddatblygu llwybr rhwng Solfach Isaf ac Uchaf - a fyddai angen prynu tir, pa ganiatâd fyddai ei angen ac ati
- Ceisio help gan y swyddog Trafnidiaeth Gwledig i ymchwilio i wasanaeth bws cymunedol.
- Annog cyngor y gymuned i gysylltu â CSP i ymestyn gwasanaeth bysiau gyda'r nos, er mwyn cynnwys anghenion pobl ifanc.

- Gweithio'n agos gyda Thyddewi i sicrhau bod y gwasanaeth bws mini cymunedol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf.
- Gwella gweledegd ar ffyrdd a throedffyrdd, gan gynnwys arwyddion clir a goleuadau. (Goleuadau solar ar gyfer y strydoedd a'r llwybrau)
- Gwahodd yr ysgol i gynllunio unrhyw arwyddion newydd ar gyfer mynediad ac ati.
- Cysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chyrff eraill ynglŷn â llwybr newydd heibio'r gofgolofn rhyfel er mwyn gwella mynediad rhwng Solfach Uchaf ac Isaf.

Gweithredu/Gweithgorau

Er mwyn datblygu'r Cynllun Gweithredu'n effeithiol cynigiwyd y dylid ffurfio Fforwm Cymunedol. Mi fyddai gweithgorau yn datblygu'r cynigion - gan adrodd yn ôl i'r Fforwm Cymunedol cyfan - ac, mewn ymgynghoriad â Chyngor y Gymuned, cysylltu â'r darparwyr perthnasol ee yr Awdurdod Priffyrdd.

Gallai'r Gweithgorau ganolbwyntio ar:

- Y Gymuned – cyfleusterau, gweithgareddau a chyfathrebu, cefnogi pwyllgor neuadd y pentref.
- Yr Amgylchedd – gan gynnwys hawliau tramwy, ynni a gwastraff
- Treftadaeth
- Busnes a Thwristiaeth sydd eisoes yn bodoli
- Gweithio gyda Chyngor y Gymuned ar:
    - o Dai a Gwasanaethau
    - o Trafnidiaeth, Traffig a Phriffyrdd

Mae'n bwysig bod y Grwpiau yn:

- Gweithio o fewn Cynllun Gweithredu Cytûn ac adrodd i'r Fforwm Cymunedol
- Gweithio gyda grwpiau presennol, gan gynnwys Cyngor y Gymuned ac asiantaethau.
- Cyfarfod yn rheolaidd – o leiaf pedair gwaith y flwyddyn.
- Hysbysu'r gymuned eangach ynglŷn â chynnydd.

Mi fydd PLANED a mudiadau partner yn cynnig cefnogaeth, cyngor a chyllid i helpu datblygu cynigion y Cynllun Gweithredu.

Y Darlun Ehangach

Mae cipolwg cyflym ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu toreth o ddeunydd i'w ddarllen mewn perthynas â datblygiad Cymru yn y dyfodol. Cynllun Gofodol Cymru yw'r sylfaen allweddol ac mae'n sefyll ochr yn ochr â 'Cymru: Gwlad Well'; y 'Cynllun Datblygu Cynaliadwy' a 'Cymru: Economi yn Ffynnu.'

O fewn y Cynllun Gofodol, mae Cymru wedi ei rhannu i ardaloedd rhanbarthol, gyda'u gweledigaethau, strategaethau a meysydd gweithredu eu hunain, gydag un wedi ei neilltuo i ardal 'Sir Benfro a'r Porthladdoedd'. Mae'r weledigaeth ar gyfer cymunedau cadarn sy'n cael eu cefnogi gan economi gynaliadwy, yn seiliedig ar amgylchedd unigryw'r ardal, mynediad i'r môr a chyfleoedd twristiaeth.